

Ymarferion 'arian':

e.e

- Faint o newid ... ?
- Faint mae'r nwyddau'n costio?

Dyma'r math o fwyd blasus sydd ar fwydlen yr Harbwrfeistr:

(i) Trafodwch y prisiau

Bwydlen

I ddechrau:

Cawl y dydd, bara cartref	5.80
Caws pôb, dail cymysg	6.00
Cacennau pysgod eog, mayonnaise lemnw	8.50
Plât antipasti - yn cynnwys cigoedd wedi'u cochi	7.50
Tarten cennin a chaws Hafod, betys a winwns coch	7.00
Cranc ar dost surdoes, mayonnaise wasabi	8.50
Coctêl corgimwch, eog a dil, bara a menyn	8.00

Prifgyrsiau:

Risotto bwyd môr - corgimwch, cocos, eog, corbenfras	13.50
Linguini cranc, chilli a garlleg	13.00
Salad ffowlyn, bacwn ac wy wedi'i botsio	10.50
Salad cig eidion Cymreig steil Asia	10.50
Porc Talsarn wedi'i dynnu a'i rolïo, afal, seleriâc, gorfetys	13.00
Byrgyr cig eidion Cymreig, sglodion tenau, relis	10.00
Stecen 'Munud', sglodion tenau, saws béarnaise	13.00
Stiw llysiau Morocaidd, iogwrt, bara fflat	10.50
Quinoa, sbinais, tomato, feta, olew basil a lemnw	9.00

Pwdinau:

Paflofa mefus, hufen iâ basil	6.00
Panna cotta cnau coco, banana, rwm a rhesin	6.00
Tarten granadila, sorbet mango	6.70
Fondant siocled, hufen iâ caramel hallt	6.70
Pwdin haf, hufen iâ fanila	6.00
Hufen iâ / sorbet Cymreig (am belen)	2.00

Bwrdd Caws:

Hafod, Perl Las, Abermwig, Caws yr wythnos	9.00
Caws yr wythnos: Ar y bwrdd du	5.00

(ii) Mae tri ffrind wedi trefnu i fynd i'r Harbwrfeistr i ddathlu pen-blwydd.

DARLLENWCH y fwydlen eto a dewiswch 3 chwrs ar gyfer pob un gan wneud yn siŵr eu bod nhw **ddim** yn gor-wario. (*overspend*)

Stephanie		
Mae ganddi hi / gyda hi £23 i wario. Mae hi'n hoff iawn o bysgod o bob math. Dydy hi ddim yn bwyta cig coch ond mae hi'n hoffi byrgys! Mae hi bob amser yn dewis pwddin ond dydy hi jyst ddim yn hoffi caws. Mae hufen iâ yn ffefryn ganddi hi hefyd.	I ddechrau:	
	Yn brif gwrs:	
	I bwdin:	
	Cyfanswm:	

Max		
Mae ganddo fo / gyda fe £23 i wario. Mae o'n llysieuwr. Dydy o ddim yn bwyta cig o gwbl ond mae o'n eitha' hoff o fwyd môr. Mae o wrth ei fodd efo / gyda pasta hefyd. Mae o'n mwynhau caws a'i hoff bwdin ydy hufen iâ.	I ddechrau:	
	Yn brif gwrs:	
	I bwdin:	
	Cyfanswm:	

Bethan		
Mae ganddi hi / gyda hi £27 i wario. Mae hi'n hoffi mynd allan i fwyta ac mae hi wrth ei bodd gyda chig a physgod o bob math. Dydy hi ddim yn or-hoff o lysiau ond mae hi'n hoffi sglodion, wrth gwrs. Dydy hi byth yn bwyta hufen iâ ond mae hi'n mwynhau ffrwythau. Ei hoff fwyd ydy caws.	I ddechrau:	
	Yn brif gwrs:	
	I bwdin:	
	Cyfanswm:	

TRAFODWCH eich dewisiadau (choices) gyda phartner. Cofiwch bydd rhaid i chi gyfiawnhau (justify) eich hun pan fydd eich partner yn cwestiynu eich dewis. Cyn cychwyn ar y dasg trafodwch y meini prawf llwyddiant fel dosbarth.

e.e

Ar gyfer Stephanie dw i wedi dewis ... i ddechrau achos ...

Dydy Max byth yn bwyta ... felly ...

Mae'n dweud yma bod Bethan jyst ddim yn hoffi ... a dyna pam dw i wedi ...